Mae Helen Gibbon a'i chôr, Côr Tŷ Tawe, wedi recordio eu CD cyntaf: manylion y tu mewn

WILIA

Rhifyn 273 Chwefror 2005

WILIA Pris 25c

Yn y rhifyn hwn:

Lluniau Gordon Stuart	3
Llyfrau awduron Abertawe	2
Digwyddiadau pwyllgorau apêl	2
Cofio Hywel Lloyd	5
Clecs Bryn Tawe	4
Galw Mamau'r Fro	7
Y Fenter	8

Digwyddiadau codi arian i Eisteddfod Abertawe 2006

* Caiff yr Eisteddfod ei chynnal ar safle hen waith Felindre.
* Mae'r Mae £50,000 eisoes wedi ei godi gan Bwyllgorau Apêl Abertawe a'r cylch.
* Croeso i'ch Pwyllgor Apêl roi gwybodaeth i Wilia am ddigwyddiadau

Siwan i arwain y Fenter Iaith

Mae merch o Abertawe, Siwan Thomas, wedi ei phenodi yn brif swyddog Menter Iaith Abertawe.

Cafodd Siwan ei haddysg yn Ysgol Gymraeg Bryn-y-mor ac Ysgol Gyfun Gwyr cyn graddio yn y Gymraeg ac Almaeneg yn Abertawe. Cyn dechrau gweithio gyda'r Fenter yn Abertawe enillodd ddiploma mewn cyfieithu.

Mae gan Siwan wreiddiau diddorol. Mae Bryn Terfel yn gefnder iddi ar ochr John ei thad, ac mae ei mam, Ruth, yn hanu o'r Swistir. Mae Siwan yn bedairieithog.

Cafodd Siwan ei phenodi dair blynedd yn ôl yn swyddog bro gyda'r Fenter, o dan Gynllun Amcan Un Ewrop, gyda gofal am wardiau llai breintiedig y ddinas. Yn y cyfnod hwnnw bu'n dra gweithgar yn cychwyn gwaith arloesol gyda phlant a phobl ifanc, a dysgwyr.

Mae Siwan eisoes wedi cychwyn ar ei gwaith newydd, gan gymryd lle Myfanwy Jones, a gafodd ei phenodi'n swyddog strategaeth ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mewn cyfweliad arbennig â Wilia, meddai Siwan, "Rydw i ers lonawr wedi cymryd drosodd gan Myfanwy Jones i fod yn Brif Swyddog ar y Fenter Iaith yn Abertawe. Dechreuodd Myfanwy tair blynedd yn ôl pan sefydlwyd y Fenter.

Ers hynny, diolch i'w hymdrechion diflino hi a chefnogaeth barhaol pwyllgor Ty Tawe, mae'r nifer o staff wedi cynyddu i 6 Swyddog llawn amser ac un swyddog rhan amser.

"Dymuna'r Fenter a Chymdeithas Ty Tawe'r gorau iddi gyda'i swydd newydd fel Arweinydd Uned Ieuenctid Bwrdd yr Iaith.

"Roeddwn yn lwcus i ymuno a'r Fenter yn gynnar iawn. Dechreuais trwy weithio yn y cynllun chwarae cyntaf a drefnwyd gan y Fenter nol yn 2002, ac er roeddwn 'ond fod i weithio am 5 wythnos, symudais i weithio yn y swyddfa ac wedi gwrthod mynd ers hynny!

"Bydd nifer yn fy nabod fel Swyddog Bro'r Fenter, lle roeddwn yn gyfrifol am weithio yn ardaloedd difreintiedig Abertawe yn bennaf ond hefyd yn gwneud gwaith gyda dysgwyr a Meithrin.

"Rydw i'n edrych ymlaen at y cyfnod newydd hwn gyda'r Fenter a fydd yn siwr o fod yn llawn profiadau newydd a chyffroes. Ac wrth gwrs rydw i'n hynod o hapus fod yn arwain tîm mor frwdfrydig a chydwybodol sydd o hyd yn rhoi o'i gorau i'r gwaith."

WILIA Pris 25c

WILIA Ionawr 2005-01-31

Golygydd y mis nesaf:
Dr Elin Meek
1 Meadow Rise,
Sgeti Isaf, Abertawe

Ffôn ar gyfer mis Mawrth
01792 208161

Popeth Cymraeg am Abertawe

Y Fenter ar waith

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

Mae'n ddechrau cyfnod newydd i'r Fenter eleni gan fod Myfanwy wedi'n gadael a Siwan wedi cymryd ei lle fel ein prif swyddog.

Cafwyd sawl digwyddiad cymdeithasol llwyddiannus cyn y Nadolig cafwyd gig ffarwel bythgofiadwy i Myfanwy, gyda Mari Lwyd a Neil Rosser yn perfformio roedd hi'n noson arbennig. Ar 28ain o Ionawr cafwyd gig gwych arall gyda Poppies yn

chwarae ac Amlder a digrifwr o ysgol gyfun Gwyr yn cefnogi noswaith lwyddiannus iawn gyda thua 100 o bobl yn Nhy Tawe.

Cynhaliwyd sesiwn werin hefyd ar ddechrau Ionawr i godi arian ar gyfer apêl Tsunami. Syniad aelodau grŵp Mari Lwyd oedd y cyfan a nhw oedd yn gyfrifol am lwyddiant y noson, ac am gael cymaint o gerddorion i ddod. Codwyd £160.

Cynhaliwyd Parti Nadolig Caffi Clonc hefyd; roedd Tŷ Tawe yn llawn ar yr 8fed o ragfyr gyda bron i gant o ddysgwyr yn dod i fwynhau adloniant byw a bwffe Nadolig, diolch i Gaffi Cymunedol Cymunedol Cymraeg Abertawe CAFFI CLONC.

Mae'r caffi sydd ar agor bob dydd Mercher a dydd Iau rhwng 12-2 ar gyfer dysgwyr a Chymry Cymraeg, yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr Merched y Wawr.

Cafwyd adloniant cerddorol gan Gary Phillips o'r grŵp Amigos sydd hefyd yn rhoi gwersi gitâr trwy gyfrwng y Gymraeg pop nos Lun yn Nhŷ Tawe. Diolch hefyd i Iona, aelod o gôr Tŷ Tawe (sy'n cwrdd pob nos Fercher) a ganodd nifer o garolau Cymraeg. A diolch hefyd i Siôn Corn ac wrth gwrs i Mark Stonelake (un o helpwyr Siôn Corn) am sicrhau fod e yma ar amser.

Codwyd £500 ar y diwrnod i gronfa Eisteddfod Genedlaethol Ward y Castell.

Ar ran cymdeithas Tŷ Tawe a Menter Iaith Abertawe hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth ddod i fwynhau a chefnogi ac yn arbennig i'r rhai wnaeth estyn cymorth yn ystod y diwrnod gyda'r bwyd ar trefniadau.

Dylai'r diolch mwyaf fynd at y gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser yn wythnosol i Caffi Clonc.

Diolch yn fawr iawn i : Ann Davies, Telsa Gwynne, Eileen Jones, Valerie Trick, Mair Thomas, Manna Joynson, Carys Jones, Mari Evans, Ann Morgan, Indeg Lewis a Ryth Thomas.

Aelwydydd Tawe.

Mae'r clybiau yn dal i gwrdd yn wythnosol yn y Bont, Tŷ Tawe, Penlan, Clydach a Threforys. Cyn Nadolig, ymysg y canu carolau ac agor anrhegion cafwyd trip i Teen Zone yn Llansamlet i dros 40 o bobl ifanc. Fe wnaeth pawb mwynhau, yn enwedig y staff. Braf oedd gweld y staff yn bihafio fel plant. Dros hanner tymor, bydd y gweithwyr yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf a bydd cwrs gwaith ieuenctid yn ail-ddechrau. Mae'r 2 cwrs yn cael eu rhedeg gan Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a'r ddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tymor yma mae'r aelwydydd yn mynd ar drip i'r sinema i weld "Ocean's Twelve"; mae sêr fwyaf enwog Abertawe yn y ffilm, ie Julia Roberts o Langyfelach a Brad Pitt o'r Bont.

Mae'r gweithdai syrffio yn ail-

ddechrau ar Chwefror y 6ed, y diwrnod ar ôl i Gymru curo Lloegr (gobeithio). Bydd y tywydd yn well a'r bobl ifanc yn barod i syrffio'r tonnau yng Nghaswel gyda Gower Surf Development.

Cynhaliwyd dau ddisgo ar gyfer ysgolion Bryn y Môr a Tirdeunaw cyn y Nadolig, dau ddisgo llwyddiannus, a gobeithio i'r plant i gyd fwynhau. Gobaith y Fenter yw trefnu disgo arall yn fuan, felly cadwch eich llygaid ar agor.

Perfformiwyd drama 'Crash' yn ysgol gyfun Ystalyfera ar y 3ydd o Chwefror. Trefnwyd y cyfan mewn partneriaeth rhwng Menter Iaith Nedd Port Talbot a Menter Iaith Abertawe, ac wrth gwrs y cwmni dram 'Theatr Arad Goch'.

Mae'r clybiau cinio i gyd wedi ail ddechrau ar draws Abertawe, ac rydym ar fin ail ddechrau clybiau yn ysgolion Gwŷr ac Abertawe.

Dyna ni am y tro.

Hwyl

WILIA

Papur Cymraeg Misol Abertawe

Rhifyn 279 **Medi 2005** **Pris 25c**

EISTEDDFOD ABERTAWE YN ESTYN CROESO CYNNES I GYMRU GYFAN



Gydag Eisteddfod Eryri a'r Cyffuniau nawr tu ôl i ni mae'r ffocws erbyn hyn yn troi at Awst 2006 ac Eisteddfod Abertawe a'r Cylch. Erbyn hyn mae'r Rhestr Testunau wedi ei chyhoeddi, 33 o bwyllgorau apêl wedi sefydlu gyda 58% o'r targed wedi cyrraedd a Chôr yr Eisteddfod wedi sefydlu. Mae pethau'n argoeli'n dda i sicrhau bydd Eisteddfod Abertawe a'r Cylch 2006 yn Eisteddfod i'w chofio!

Eisteddfod Eryri a'r Cyffuniau 2006

Dewch a gweld hyfrydwch gwâr
A gweld g_yl, nid gwlad galar.

Brynhawn Gwener yn union cyn y Cadeirio yn Eisteddfod Eryri ym mharc y Faenol eleni, clywyd geiriau heriol a hyderus y prifardd Emyr Lewis yn atseinio trwy'r pafiliwn cyfforddus lawn. Y geiriau hyn o'r Cywydd Croeso oedd thema a neges cyflwyniad bywiog Eisteddfod Abertawe a'r Cylch i gyd-eisteddfodwyr Cymru, i'w hannog i fentro i lawr i'r maes yn Felindre yn Awst 2006. Aethpwyd â'r gynulleidfa yn y pafiliwn ac ar y teledu ar daith drwy fro'r Eisteddfod o Gasllwchwr i Lansamlet, o Frynaman i ben pellaf Penrhyn G_yr ac i'r ddinas ei hun gan glodfori'i hanes, ei llenorion a'i beirdd niferus a'i thraddodiadau cyfoethog.
Ond yr oedd y pwyslais ar y dyfodol, fel y mae yn y Cywydd Croeso a ganwyd gan Sara Abigail, ac a gynrychiolwyd gan y llefarwyr a'r cantorion ifanc brwdfrydig o bob cwr o'r dalgylch yn eu crysau T du a glas eisteddfodol ar y llwyfan (gw. y llun uchod) ac yn araith rymus Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Heini Gruffudd, wrth iddo olrhain, nid yn unig lwyddiannau'r gorffennol ond y twf trawiadol mewn addysg Gymraeg a'r gobaith rydd hynny at y dyfodol. Roedd hi'n amlwg fod y croeso i fro Abertawe yn dwymgalon, y paratoi yn mynd yn ei flaen yn bwyllog-dawel a'r awydd i ddarparu g_yl gofiadwy yn angerddol. Diolch o galon i Delyth Nicholas am ei sgript ysbrydoledig ac am iddi hyfforddi'r cyflwynwyr mor drwyadl. Diolch yn fawr hefyd i Eric Jones am gyfansoddi cerddoriaeth y gân oedd yn cloi'r cyflwyniad mor briodol ar nodyn gobeithiol a llawn hyder:

Abertawe, Abertawe,
Dewch yno'n chwim eich cam;
Cewch groeso da twymgalon,
Bydd Abertawe'n fflam!

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn denu tua 170,000 o ymwelwyr i'r ardal lle'i cynhelir yn flynyddol. Tra bod rhai'n teithio o'u cartref bob diwrnod, mae nifer fawr yn aros mewn catrefi preifat yn yr ardal, rhai am yr wythnos gyfan, eraill am ddiwrnod neu ddau. Fe fydd y gwesteion wrth gwrs yn talu cydnabyddiaeth briodol. Oes gyda chi ystafell neu ddwy i'w sbario? A hoffech letya ymwelydd? Cysylltwch â Sioned yn Swyddfa'r Eisteddfod ar 02920 763 777 neu sioned@eisteddfod.org.uk. Yn ogystal â hyn mae'r swyddfa eisioes wedi derbyn nifer o geisiadau gan Eisteddfodwyr yn chwilio am garafán i'w llogi er mwyn gosod ar Faes Carafannau'r Eisteddfod. Os oes gyda chi garafán i'w llogi cysylltwch â ni!

Mwy o adroddiadau am Eisteddfod Abertawe 2006, gweithgareddau codi arian ynghyd â gweithgareddau eraill ar dudalennau 2, 3 a 4
Cofiwch anfon manylion y gweithgareddau yn eich ardal chi atom er mwyn iddynt gael digon o gyhoeddusrwydd!

WILIA

PAPUR MISOL CYMRAEG ABERTAWE

RHIFYN 294 **MAWRTH 2007** **40C**

EISTEDDFOD 2006 WEDI CYNHYRCHU MILIYNAU I ABERTAWE

Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Felindre'r llynedd gynhyrchu rhyw £6 miliwn i ardal Abertawe. Mae'r ystadegau wedi'u seilio ar nifer y bobl a deithiodd i'r digwyddiad ac effaith economaidd pob math o ymwelydd ar gyfartaledd.

Mae canlyniadau gwaith ymchwil GTS Ltd yn rhoi amcangyfrif o werth economaidd yr Eisteddfod i Gymru gyfan, yn ogystal â'r manteision uniongyrchol i Abertawe.

Mae'r amcangyfrif bod £6.3 miliwn wedi'i gynhyrchu ar gyfer Cymru gyfan yn dangos mai yn ardal y Ddinas a'r Sir y gwelwyd y manteision economaidd mwyaf, a bod yr Eisteddfod wedi llwyddo'n wych yn economaidd. Hefyd, yn ôl ymchwil a wnaed yn y digwyddiad yn Felindre, daeth dros 155,000 o bobl ar ymweliad i'r dathliad blynyddol ym mis Awst.

Meddai Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, Elfed Roberts: "Roedd yr holl adborth a gawsom ynghylch Eisteddfod Abertawe'n argoeli bod y digwyddiad yn llwyddiant ysgol, yn ddiwylliannol ac yn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau hyn ac yn amlygu'r buddsoddiad ariannol sylweddol a ddaeth i'r ardal yn sgîl yr Eisteddfod. Roedd y bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod a Chyngor Abertawe yn hanfodol i sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod ac fe'i defnyddir yn batrwm ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol".

Dyma rai pytiau o'r ystadegau:

- Roedd 77% o'r rheini oedd yn dod am y tro cyntaf naill ai'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno â'r gosodiad *'Byddaf yn bendant yn dod i'r Eisteddfod yn y dyfodol'*. Roedd 96% o'r rheini oedd wedi bod droeon naill ai'n Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno â'r gosodiad yma. Eisteddfodwyr o Gymru oedd 95% o'r bobol oedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r atebwyr eu bod yn aros yn Abertawe neu ar faes yr Eisteddfod ei hun (73%). Y ddau fath mwyaf poblogaidd o lety oedd Gwesty/tafarn/motél a Gwersylla, 24% o atebion yr un. Roedd 61% yn teimlo bod yr Eisteddfod eleni wedi bod yn Ddifyr Iawn a 56% yn meddwl bod lleoliad yr Eisteddfod eleni ar y cyfan yn Dda Iawn.

Côr Dydd a fu'n canu yn Eglwys Ystumllwynarth ddiwedd Ionawr. Nhw oedd un o gorau cymysg buddugol Eisteddfod Abertawe 2006/

- Dywedodd 30% eu bod nhw'n mynd i ymweld â llefydd eraill. Troeon am ganol y ddinas oedd y mwyaf poblogaidd, a chanddyn nhw 66% o atebion. Roedd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls hefyd yn boblogaidd, a chanddyn nhw 37% a 34% yn y drefn honno. O blith atynfeydd y ddinas, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau nodwyd fwyaf (10%).
- Dywedodd 82% o'r sampl eu bod yn deall Cymraeg llafar ac 80% eu bod yn siarad Cymraeg eu hunain. Roedd 77% yn gallu darllen Cymraeg, a 74% yn dweud eu bod yn gallu sgrifennu Cymraeg. Roedd 10% o'r sampl yn ddysgwyr Cymraeg, a 9% heb fod yn gallu siarad na deall dim Cymraeg a heb fod yn dysgu.Gofynnwyd i'r atebwyr i ba raddau roedden nhw'n cytuno bod dod i'r Eisteddfod wedi'u symbylu nhw i ddysgu mwy am ddiwylliant Cymraeg. Roedd 83% o ddysgwyr yn Cytuno neu'n Cytuno'n Gryf â'r gosodiad.

WILIA

RHIF 300 HYDREF 2007 PAPUR MISOL CYMRAEG
PRIS 40C 6 EWRO ABERTAWE

Yn yr estyniad newydd mae caffe, siop Gymraeg, swyddfeydd y Fenter Iaith a stafell gymdeithasu a dysgu...

PENWYTHNOS I DDATHLU ESTYN TY TAWE



Huw Chiswell oedd y diddanydd a ddenodd y torfeydd i Dy Tawe nos Sadwrn y dathlu.
Ond byddai rhai'n dweud mai Frizbee y noson gynt oedd y prif atyniad – dibynnu ar eich oed debyg iawn!

Trefnwyd y digwyddiad i ddathlu ail agor Ty Tawe.

Fore Gwener cynhaliwyd y seremoni agor, gan dorri teisen. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys Sian Jeames, A.S., Peter Black, A.C. a Dai Lloyd A.C., a swyddogion WEFO, a fu'n gyfrifol am weinyddu'r grant o ryw £190,000 a gafodd Ty Tawe o gronfeydd Ewropeaidd tuag at estyn yr adeilad. Codwyd hyd at £250,000 trwy gymorth grant pellach o £30,000 o gronfa adfywio a weinyddir gan Ddinas a Sir Abertawe, a benthyciad pellach gan y banc.

Cafwyd llond lle o blant brynhawn Sadwrn gydag adloniant gan y consuriwyr Eirian Wyn, a phob math o weithgareddau eraill. I'r dysgwyr ac i siaradwyr Cymraeg cafwyd Siop Siarad, gyda Manon Eames yn trafod ei drama newydd, Porth y Byddar, a berfformiwyd yn Nhaliesin y noson gynt.

WILIA

RHIF 301 TACHWEDD 2007 PAPUR MISOL CYMRAEG
PRIS 40C 6 EWRO ABERTAWE

Y Nadolig yn Siop Ty Tawe

Mae'n prysur agosáu at y Nadolig ond wrth i ni aros am gyhoeddiadau'r ŵyl dyma'r pum llyfr uchaf o ran gwerthiant yn eich siop leol Siop Tŷ Tawe dros fis Medi

Llyfrau Cymraeg i oedolion

1. Llyfr Natur Iolo
2. Cyfres Ti'n Jocan - Hiwmor Pws
3. Cyfres ti'n Jocan – Hiwmor Pontshan
4. Dyddiadur y Lolfa (maint A4)
5. Dyddiadur Poced y Lolfa

Llyfrau Cymraeg i blant

1. Pert mewn Pinc! Diwrnod Da
2. Tractors Gwych!
3. Dwi'n dweud Mee
4. Y Geiriadur Lliwgar
5. 100 Geiriau Cyntaf

Dysgwyr

1. Cwrs Mynediad – Llyfr Cwrs
2. Cwrs Mynediad – Pecyn Ymarfer
3. Cwrs Sylfaen – Llyfr Cwrs
4. Welsh Learners Dictionary
5. Street Welsh

Os ydych yn dechrau meddwl am eich siopa Nadolig, cofiwch fod digon o lyfrau newydd i blesio pawb ar fin cael eu cyhoeddi. Yn eu plith mai nifer o hunangofiannau er enghraifft

Maestro - Cofiant Noel Davies, sef cyfrol i ddathlu bywyd y cerddor dawnus Noel Davies ac arweinydd Côr Meibion Pontarddulais. *Gwrando ar fy nghan* - Bywgraffiad y gantores Heather Jones a *Glaw a hindda*, stori liwgar ac afieithus y gyflwynwraig Jenny Ogwen gyda straeon am ei gwaith ym myd y cyfryngau a'i phrofiad o gyflwyno'r rhaglen boblogaidd Sion a Sian.

Os mai chwaraeon sy'n mynd a'ch bryd gallwch edrych ymlaen at gofiannau gan y cyn chwaraewr rygbi Gareth Edwards a'r chwaraewr presennol Stephen Jones sy'n olrhain ei gyfnod yn chwarae gyda'r Scarlet, Toulouse a Chymru. Gallwn hefyd edrych ymlaen at weld cyhoeddi cyfrol gyntaf o gerddi i oedolion gan y prifardd Ceri Wyn Jones sef 'Dauwynebog' a chasgliad cyflawn o gerddi'r bardd J.Gwyn Griffiths 'Hog dy Fwyell' sydd wedi ei olygu gan ei fab Heini Gruffudd.

Os ydych am ddarllen nofel newydd dros yr ŵyl a'r flwyddyn newydd, disgwylir nofelau newydd gan awduron fel Dewi Prysor, Angharad Tomos, Meinir Pierce Jones, Eigra Lewis Roberts a Llwyd Owen.

Yn ogystal â llyfrau i'r plant bydd cyfle eleni eto yn siop i brynu hamperau gan gwmni Bodlon o Lanarthne, gemwaith, dillad babi i'r newydd ddyfodiad yn eich teulu, crysau T ac wrth gwrs cardiau Nadolig.

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Tyrfe!

Cafwyd wythnos o ddathlu mawr yn Abertawe ganol Hydref, a'r wyl Tyrfe Tawe'n llenwi ambell far ac ambell dafarn. .... Genod Droog sy wrthi fan hyn yn diddanu'r dawnswyr bodlon.

Mwy o luniau y ar y dudalen gefn.

Nia Ben Aur

Lewis Gardiner, a chwaraeodd ran Osian a **Hywelis-Thomas-Howells** a chwaraeodd ran Nia yng nghynyrchiad cyntaf Ysgol Bryn Tawe ddiwedd Hydref.

Mwy o fanylion ar dudalen 8



Tryweryn..

Na, nid i'r cwm, ond i'r afon yr aeth disgyblion Gwyr—mwy o'u hanes yn herio'r tonnau llamsachus ar dudalen 2...

Priodas Dai ac Eiry

Dathlwyd priodas Dai Bryer, prif swyddog Menter Iaith Abertawe, ac Eiry Miles, a fu'n swyddog iaith Prifysgol Cymru Abertawe, ac sy'n awr yn awdur a chyfieithydd. Priodwyd y ddau yn y Gerddi Botanig Cenedlaethol yn Sir Gaerfyrddin.

Lluniwyd englynion dathlu gan Huw Dylan Owen o Dreforys:

Dau gerrynt yw Dai ag Eiry – ar wib
I'r aber i gorddi;
Unant a'u serch yn tonni,
Dŵr llon sy'n nyfnder eu lli.

Dolennu gwâr yn nyfnder cariad – ffres
Eu ffrwd wedi'u huniad;
Gŵyl o hwyl yn nhon mwynhad
A'u hurddas ddaw o'u tarddiad.

O nant araf tarddodd afon – yn sionc
Ei swyn a'i bendithion;
'M mwrlwm byw clyw dincial hon –
Eu cân uwch egwan eigion.

Harmoni'r gân ddaw ganddynt – yn hyglyw
a dreigla'n ddi-helynt;
Boed hydrin hin ar eu hynt
a'u cariad yn gwthio'r cerrynt.

Dylan

Mae Dai ac Eiry wedi ymgartrefu ger Pontarddulais. Mae Dai yn hanu o sir Ddinbych, ac mae Eiry'n ferch i'r dramodydd, Gareth Miles.

Bryn Tawe'n dadlau

> Alice Watts-Jones, Llinos McCann, Morganne Bendle, Lewis

Llongyfarchiadau i Alice Watts-Jones a Llinos McCann, disgyblion blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am ei llwyddiant ym Mhencampwriaethau CEWC Dadlau Ysgolion Cymru 2007. Gwnaeth y merched perfformio'n arbennig o dda wrth gynrychioli'r ysgol yn rownd ranbarthol Abertawe, Nedd a Phort Talbot. Er taw coleg Gorseinon a gipiodd y gystadleuaeth, mae rhaid canmol ein disgyblion am eu paratoi trylwyr a hyder wrth ddadlau dros y datganiad: "Cred y tŷ hwn fod yna ddyletswydd ar gwmnïau bwyd sydyn (fast food) i dalu iawndal i bobl am ddinistrio eu hiechyd". Paratowyd y tîm gan Mr Chris Shaw (yr Adran Saesneg) gyda chymorth y Prifathro Mr David Williams. Hoffwn ddiolch hefyd i Morganne Bendle, Rhodri Davies a Lewis Gardiner (blwyddyn 10) am eu holl gymorth wrth baratoi am y gystadleuaeth.

MAEN CETI—
PARHAD O DUD. 5

argyhoeddedig o ffyddlondeb y llanc, ond pe na bai'r darpar ŵr yn dod at y maen y noson honno ni fyddai priodas i'w gynllunio. Credai'r merched lleol yn hud a lledrith Maen Ceti, tra credai'r rhai ychydig llai ofergoelus fod gan ymddangosiad y llanc fwy i'w wneud â gwahoddiad cêl mamau'r merched i'r darpar wŷr nag unrhyw swyngyfaredd!

Beth bynnag fo'r gwirionedd, mae Maen Ceti yn fan hyfryd i ymweld ag ef ac i fwynhau'r awyrgylch gynoesol.

MEITHRIN BRYNY-MOR:

Cawsom hwyl yn gwneud ffrindiau newydd yn y dosbarth meithrin y tymor yma.

Aethom am dro i'r parc i arsylwsi arwyddion yr Hydref. Gwelsom nifer o anifeiliaid hyfryd a dail pob liw.

Ein thema yw Fy hun. Rydym yn brysur ar hyn o bryd yn chwarae rol yn ein ty bach twt.

WILIA

RHIF 306 MAI 2008
PRIS 40C 60 EWRO
PAPUR MISOL CYMRAEG ABERTAWE

Crys T 'Grand Slam' ar werth

Dathlwch gamp tîm rygbi Cymru drwy brynu crys T 'Grand Slam' cwmni COWBOIS Ar werth yn

SIOP TY TAWE

Crysau T oedolion (£13.00) a phlant (£8.50)

☎ 01792 56856
sioptytawe@hotmail.co.uk

DATHLU PEN-BLWYDD YN 100 OED

Cynhaliwyd parti arbennig yng Nghapel Bethel Sgeti ar 20 Ebrill i ddathlu pen-blwydd Mrs Ivy Edwards yn 100 oed. Cyflwynwyd blodau a charden arbennig i Mrs Edwards gan blant yr Ysgol Sul. Rhoddwyd teyrngedau gwresog iawn gan Y Parch Siôn Alun, y Parch Derwyn Morris Jones a Mr Harri Clarke. Rhagor o luniau'r tu mewn!

Mae criw o flwyddyn 10 Gŵyr wedi bod yn cael hyfforddiant anabledd PARCH yn ddiweddar. Mae'r cwrs yn cael ei redeg gan SNAP Cymru ac yn cael ei redeg gan Fenter Iaith Abertawe. Dyma lun o'r merched yn gwenu gyda'u tystysgrifau.



Gareth Richards, y cogydd medrus o ardal Llanbed a fu'n coginio 'Gwledd y Gwanwyn' yn cynnwys 5 rysáit i gyd yn Nhŷ Tawe ar 19 Ebrill. Gwledd yn wir o goginio a diddanwch yng nghwmni hawddgar Gareth, a digon o ddanteithion i'w bwyta wedyn i'r rhai a oedd yno!

Mae plant Ysgol Gyn-radd Felindre wedi bod wrthi'n garddio'n ddiweddar.

Dyma nhw wrth eu bodd yn heulwen y gwanwyn.

Gobeithio y cân nhw ragor o dywydd garddio dros yr wythnosau nesaf!